511

# GALARGERDD

AM Y

# DDAMWAIN OFNADWY,

YR HON A FU

## AR Y 15fed O ORPHENAF, 1856,

**Yn Ngwaith Glo INSOLE & Co.,**

YN Y

## Cymer, gerllaw Pontypridd,

SIR FORGANWG,

*Pryd y taniodd y Damp, ac y lladdwyd, rhwng llosgi a mygu,* 111 *o GOLLIERS, pa rai a adawsant ar eu hol* 93 *o Blant amddifaid, a* 34 *o Wragedd gweddwon, heblaw amryw o Berthynasau a ymddibynent arnynt am eu cynaliaeth.*



LLANIDLOES:
ARGRAFFWYD GAN J. MENDUS JONES.

*Cenir—Ar Earl of Moria.*

GWRANDEWCH alarnad profiad prudd,
  Er sobrwydd i bob sir ;
O fewn i sir Forganwg 'roedd,
  Adrodda' ar g'oedd y gwir ;
Gorphenhaf y pymthegfed dydd,
  Bu'r dirfawr sobrwydd sy,
Un mil, wyth gant, pum deg a chwech,
  Oed Iesu ein Ceidwad cu ;
Ac mewn un gwaith, ni bu yn bod
Yn Nghymru 'rioed fath drallod trist.

'Roedd cant a haner yno ar lawr,
  Tan ddaear gronfawr gre' ;
Y *colliers* aethant at eu gwaith,
  Yn lanwaith bawb i'w le ;
Pan daniai'r damp egnïol nwy,
  Mewn modd ofnadwy'n wir,
A lladdodd gant ac unarddeg
  O'r *colliers* glandeg clir.
Trwy bob sir, clywir son
Am y tro echryslon trwm.

Cwm Rhonddu sydd dan drallod prudd,
  A Phont-y-pridd mewn braw ;
Gwaith mawr i gladdu'r meirwon oedd,
  Yn lluoedd ar bob llaw :
'Roedd tri o gyrff mewn ambell fan
  Yn dyfod i'r un tŷ,
A gwneyd coffynau 'roedd pob saer
  I'w rhoi'n y ddaear ddû :
Llefai llu yn mhob lle,
Am ffrindiau a pherth'nasau'n wir.

Ychydig a feddyliodd neb
  Am y trychineb chwaith,
Wrth fyn'd i lawr y boreu'n bur
  Trwy gysur at eu gwaith ;
Gadawent wragedd a phlant bach
  Yn fyw ac iach i gyd,
Heb wybod caent wynebu'r daith
  I faith dragwyddol fyd :
Aeth y llu i'r ddaear ddû,
I gwrdd y damp ofnadwy nod.

Dych'mygaf fod y gwŷr hyd lawr
  Mewn dychryn dirfawr dwys,

X205 230783

Am ffoi rhag damp y ddaear ddû,
  Dan boenau felly o bwys;
Er hyn 'roedd tân a sulphar cry',
  Mewn modd ofnadwy nod,
I'w mogi a'u llosgi yno yn llu,
  Bu eu diwedd felly i fod:
'Roedd eu dydd wedi d'od
I gwrdd â dyrnod angeu dû.

Pan glywyd am eu diwedd trwm,
  Cyffroai'r Cwm i gyd,
Daeth gwyr y gweithiau i lawr o'r bron,
  Yn bruddion hyny o bryd;
Hwy aent i lawr i'r ddaear ddû,
  I'w codi i fyny o'r fan:
I'r *Colliers* glewion mae mawr glod,
  Mor hynod gwnaent eu rhan:
Mogi rhai, llosgi'r lleill,
A ddarfu'r damp, O erchyll dân!

'Roedd gwaedd yn ddigon hollti o'r bron
  Bob calon greulon gre',
Gan wragedd gerddent at y gwaith
  Yn lluoedd o bob lle:
'Roedd rhai yn gwaeddi am eu gwyr,
  A'u meibion, eglur yw;
A'r plant amddifaid cofio wnant
  Lle bynag byddant byw:
Ni fu tro 'rioed mor drwm
Yn Morganwg, gwn, ag e.

'Roedd yn eu plith grefyddwyr pur,
  Fel brodyr braf ger bron,
A thorwyd llon gantorion teg,
  Yr hynod adeg hon;
Gobeithio eu bod yn canu'n llon
  Ar freiniol Seion fryn,
Er bod amdanynt golled drist:
  Eglwysi Crist am hyn,
Maent tan dŷn alar du,
Ar ol y tro ofnadwy'n wir.

Rhoed cwest y Crowner ar y cyrff
  A godwyd oll o'r gwaith,
Fe'u claddwyd gan alarus lu
  Mewn llawer llety llaith;
Mae yn y Cymer drymder trist,

A'r Dinas, athrist ynt,
Wrth gofio am berth'nasau llon,
A hoff gyfeillion gynt;
A Phontypridd hylwydd hynt,
Byth ni welant mo'nynt mwy.

Mae gwaith y glo'n beryglus iawn
Mewn daear lawn o dân,
Fe laddwyd llu o *golliers* teg
Bob adeg ar wahan;
Yn mentro eu bywyd byddant hwy,
I'r damp ofnadwy'n wir;
Mewn gweithiau glo yr aeth i lawr
Ryw dyrfa fawr o'n tir;
Mynych bydd profiad prudd
Yn mhob gwledydd, gweithydd glo.

Wel, dyma'r tro rhyfeddaf fu
Trwy Gymru oll, mi a'i gwn;
Maent o Gaergybi i dref Gaerdydd
Yn brudd o herwydd hwn:
Lladd cant ac unarddeg 'run pryd,
Mae'n arswyd mawr i ni,
O Bontypridd a'r Cymer rhed
O'u llygaid ddagrau'n lli;
Darfu'r gân yno i gyd,
Mae'r gweithiau 'nawr yn drymllyd drist.

Enillodd eu cantorion llon
Wobrwyon gynt a bri;
Colledwyd llawer Ysgol Sul,
Wych anwyl, coeliwch chwi;
Boed hyn o 'mweliad, profiad prudd,
Er rhybudd i bob rhyw,
I lwyr bar'toi bob munud awr,
Ni fyddwn fawr yn fyw:
Iesu gwiw ydyw'r gŵr,
Cadarn dŵr fo'n Ceidwad oll.

YWAIN MEIRION.

